



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Pecyn Cyflwyno ac Ysgogi'r Ymgyrch

## Ymgyrch Atal Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc

Nodau'r ymgyrch - Tudalen 2

Beth yw digartrefedd cudd? - Tudalen 3

Adnabod arwyddion digartrefedd cudd – Tudalennau 4

Adnoddau'r ymgyrch - Tudalennau 5 - 11

**Llamau**

**Shelter**  
Cymru

## **Nodau ac amcanion yr ymgyrch**

Nod ac amcan ail gam yr ymgyrch digartrefedd ymhlith pobl ifanc yw codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd cudd ymhlith pobl ifanc (16-25 oed) yng Nghymru a chynyddu nifer y bobl ifanc y mae Llinell Gymorth Cyngor Tai Shelter Cymru/Llamau yn eu cefnogi.

Mae'r ymgyrch hon yn targedu tri math o gynulleidfa ar bob math o gyfathrebu:

1. Pobl ifanc a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref cyn COVID19
2. Pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn ymateb i COVID19 (swyddi wedi'u colli, ar ffyrlo).
3. Gwylwyr - ffrindiau, perthnasau neu gydweithwyr y person y mae digartrefedd yn effeithio arno. Bydd targedu'r gynulleidfa hon yn helpu i ddangos i bobl sut y gallan nhw helpu os ydynt yn amau y gallai rhywun fod mewn perygl o ddiodef digartrefedd cudd neu'n profi digartrefedd cudd ar hyn o bryd.

Bydd yr ymgyrch yn cyflawni hyn drwy roi gwybod i bobl ifanc, a'r rhai o'u cwmpas sut i adnabod arwyddion digartrefedd cudd a ble i fynd i gael cymorth.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Shelter Cymru a Llamau i ddarparu cymorth drwy linell gymorth cyngor ar dai i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd, neu sy'n profi digartrefedd ar hyn o bryd.

## **Beth yw digartrefedd cudd?**

Y llynedd daeth dros 3,000 o bobl ifanc yng Nghymru yn ddigartref a bu'n rhaid iddyn nhw ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd y cyngor, ac roedd nifer anhysbys yn syrffio soffas, yn cysgu ar loriau ffrindiau neu'n byw mewn amodau gwael iawn neu'n byw rywle anaddas. Gelwir hyn yn ddigartrefedd cudd, sy'n anodd ei weld mewn pobl – yn enwedig ffrindiau, perthnasau a chydweithwyr, ond gall adnabod yr arwyddion helpu.

Mae COVID-19 wedi cael effaith andwyol ar ddigartrefedd cudd ledled Cymru – a gwnaeth galwadau i'r llinell ffôn cyngor ar dai (a reolir gan Shelter Cymru a Llamau) fwy na dyblu yn ystod tri mis cyntaf y cyfyngiadau symud. Mae llawer o bobl ifanc yng Nghymru wedi'u rhoi ar ffyrlo, wedi'u diswyddo ac yn pryderu na fyddant yn gallu talu eu rhent na'u taliadau morgais. Mae digartrefedd wir yn bryder i lawer o bobl ifanc ledled Cymru ac ychwanegwyd ato gan effaith y pandemig.

Gall bod yn ddigartref fod yn brofiad brawychus, ac yn un a all barhau i effeithio arnoch chi drwy gydol eich oes. Gall cysgu ar sofffa neu ar wahanol lawr bob nos neu aros mewn llety dros dro fod yn brofiad sy'n llethu rhywun. Gall effeithio ar eich gallu i gael gwaith, aros yn yr ysgol a chynnal sefydlogrwydd mewn bywyd yn gyffredinol. Yn aml, gall natur gythryblus digartrefedd cudd gael effaith ddinistriol ar fywyd personol rhywun, fel materion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol.

Gallai digartrefedd cudd fod yn digwydd i rywun sy'n agos atoch chi, heb yn wybod i chi hyd yn oed. Rydym ni wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ynghylch sut i adnabod arwyddion digartrefedd cudd yn ogystal â deunydd i'w ddefnyddio o fewn eich sefydliad (a rhannu gyda'ch staff a'ch timau) i godi ymwybyddiaeth ynghylch y mater a grymuso pobl ifanc a allai fod wedi'u heffeithio i gael help, ac i'r rhai o'u cwmpas ddeall sut i'w helpu.

## **Adnabod arwyddion digartrefedd cudd**

Nid yw digartrefedd bob amser yn byw ar y stryd a gall unrhyw un gael ei effeithio. Gallwch helpu'r rhai sydd mewn perygl trwy adnabod yr arwyddion. Gallai hyn fod yn digwydd ar hyn o bryd i rywun yr ydych chi'n ei adnabod:

**Aros gyda ffrind:** Mae llawer o bobl ifanc yn aros gyda ffrindiau neu gydnabod gan nad oes ganddynt unrhyw le arall i fyw, y gellir ei ddisgrifio'n aml fel 'syrffio soffas'. Er nad ydynt yn cysgu ar y strydoedd, ystyrir bod hyn yn gyfystyr a bod yn ddigartref beth bynnag. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Crisis UK yn dangos bod cynnydd o 53% i nifer y syrffwyr soffas yn y DU. Diffinnir syrffwyr soffas fel 'pobl sy'n aros dros dro ar aelwydydd nad ydynt yn'

**Perthynas yn chwalu:** Gallai hyn amrywio o drafferthion teuluol, i gwpl yn gwahanu. Yn aml, gall hyn fod yn sbardun sydyn iawn i rywun a'u rhoi mewn perygl o ddod yn ddigartref a gall gyfateb â thrais yn aml.

**Iechyd:** Gall problemau gydag iechyd meddwl a chorfforol wneud rhywun yn agored i ddigartrefedd.

**Cyllid:** Gall problemau ariannol fod yn un o'r arwyddion cyntaf bod rhywun mewn trafferthion. A ydych chi'n adnabod rhywun sydd efallai â chyflogaeth ansefydlog, neu sy'n cael trafferth yn cadw i fyny â thaliadau rhent? Gallai hyn fod yn fwy anodd sylwi arno, fel peidio â chymdeithasu cymaint i arbed arian, neu'n gorfod ceisio benthyg arian drwy'r amser.

**Profedigaeth deuluol:** Gall golli anwylyd wneud rhywun yn agored i ddigartrefedd Aros yn hwyr: Yn y gwaith, mewn caffi, yn y coleg, hyd yn oed cysgu ar drafnidiaeth gyhoeddus heb byth gyrraedd eu harosfan... efallai nad oes ganddyn nhw unman i fynd.

**Cam-fanteisio:** Mae pobl ifanc sy'n dioddef digartrefedd cudd mewn perygl o gamfanteisio gan eraill. Efallai y bydd pwysau'n cael eu rhoi arnynt i dderbyn trefniant rhyw am rent yn gyfnewid am le i aros.

## Adnoddau'r ymgyrch

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys adnoddau ymgyrchu digidol sydd ar gael i'w lawrlwytho ac sydd wedi'u fformatio'n briodol i'w hargraffu yn eich amser eich hun.

Cyfrwng	Gweithgaredd
<b>Posteri</b>	Mae posterï A4 wedi'u cynllunio i chi eu gosod ar hysbysfyrddau, ffenestri blaen neu unrhyw le y mae gan bobl amser i sylwi arnynt. Mae'r poster hwn yn codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd cudd a'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n ei wynebu.
<b>Taflen A5 (fersiynau cyffredinol ac ar gyfer cyflogwr)</b>	Taflen wybodaeth i'w rhannu, sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynghylch arwyddion ac achosion digartrefedd cudd, beth ydyw, a pha gymorth sydd ar gael.
<b>Negeseuon Cyfryngau Cymdeithasol</b>	Rydym wedi darparu 4 neges cyfryngau cymdeithasol, ôl-gopi a deunydd creadigol, i chi eu rhannu ar dudalennau cymdeithasol eich cymdeithas neu sefydliad. Cofiwch ddefnyddio hashnod yr ymgyrch #DigartrefeddCudd.
<b>Digidol</b>	<p>Dilynwch ni! Os ydych chi eisiau cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr ymgyrch a dysgu mwy am ddigartrefedd cudd ac adnabod yr arwyddion, gallwch ddilyn Shelter Cymru ar Facebook, Instagram a Twitter, a chwilio'r hashnod #DigartrefeddCudd.</p> <p>Mae ein tudalen ymgyrchu hefyd yn fyw er mwyn cael rhagor o wybodaeth: <a href="http://sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd">sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd</a></p> <p>Rydym ni wedi darparu fersiynau MP4 o'n hysbysebion ymgyrchu diweddaraf y gallwch chi eu rhannu â chydweithwyr ar gyfryngau cymdeithasol.</p>

## Posteri



**MAE RHYS YN AROS GYDA  
FFRIND ETO YR WYTHNOS HON.**

**RHYS IS STAYING WITH A  
FRIEND AGAIN THIS WEEK.**

**Llamau Shelter  
Cymru**

**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

**NID YW POBL  
DDIGARTREF  
WASTAD YN BYW  
AR Y STRYD.**

Os ydych chi, neu rywun yr  
ydych chi'n ei adnabod, mewn  
perygl o wynebu digartrefedd  
neu'n ei wynebu'n barod,  
cysylltwch â Shelter Cymru:

[sheltercymru.org.uk/  
cy/digartrefeddcudd](https://sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd)

**08000 495 495**

Nid yw hi byth yn rhy hwyr  
nec yn rhy gynnar i gael help.  
**#DigartrefeddCudd**

**HOMELESSNESS  
DOESN'T ALWAYS  
LIVE ON THE  
STREETS.**

If you, or someone you know,  
is experiencing or is at risk  
of homelessness, visit our  
website today for free help  
and advice:

[sheltercymru.org.uk/  
hiddenhomelessness](https://sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness)

**08000 495 495**

It's never too late  
or too early to get help.  
**#HiddenHomelessness**

# Taflen A5 ar gyfer cyflogwyr



**Nid oes yn rhaid i chi fod yn cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref, efallai y bydd gennych swydd ac yn dal i fod mewn perygl.**

**Fel cyflogwr, mae'n bwysig gofalu am eich cydweithwyr a'ch cyflogeion.**

Gallai gymrwys cysgu ar sofa ffrind neu aelod o'r teulu, aros rhywle dros dro fel hostel neu wely a broswast, byw mewn amodau gwael iawn neu rhywle nad yw'n addas ar gyfer unigolyn neu deulu.

Nid yw llawer o bobl ifanc yn y sefyllfaeoddi hyn yn sylweddol eu bod mewn gwirionedd yn profi'r hyn a elwir yn 'ddigartrefedd cudd'. Gall hyn fod hyd yn oed yn anoddach i ffrindiau, teulu a chydweithwyr sy'n arno. Efallai fod ganddyn nhw swydd, ond y tu ôl i'r lenni, mae'n bosibl bod effaith COVID-19 yn ddiraetho eu sefyllfa o ran bod â chartrf. Yn rhin mis cyntaf y cyfyngiadau aymud, fe wrasht y galwadau i'n llinell gymorth i'w na dyblu.

Gallwch helpu cydweithwyr neu gyflogai sydd mewn perygl trwy adnabod yr arwyddion a'i'annog i ofyn am gymorth.

**Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.**

**08000 495 495**

[sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddCudd](https://sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddCudd)

**Llamau Shelter Cymru**



**You don't have to be sleeping on the streets to be homeless, you can still have a job and be at risk.**

**As an employer, it's important now more than ever to look out for your colleagues and employees.**

It might be sleeping on the sofa of a friend or family member, staying somewhere temporarily like a hostel or bed & breakfast, living in very poor conditions or somewhere that's not suitable for an individual or a family.

Many young people in these situations don't realise that they're actually experiencing what's known as 'hidden homelessness'. This can be even harder to spot for friends, family and colleagues. They might be holding down a job, but behind the scenes, the impact of COVID-19 could slowly be destroying their housing situation. In the first three months of lockdown, calls to our helpline more than doubled.

You can help a colleague or employee at risk by first recognising the signs and then encouraging them to reach out.

**It's never too late or too early to get help.**

**08000 495 495**

[sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness](https://sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness)

**Llamau Shelter Cymru**

## Gwybod beth yw'r arwyddion:

### Aros gyda ffrind:

Mae llawer o bobl ifanc yn aros gyda ffrindiau, aelodau'r teulu neu bobl y maent yn eu hadrebolod gan nad oes ganddyn nhw unrhyw le arall i fynd, sy'n arll y cael ei ddiagramio fel 'syrffio sofa'.

### Pherthynas yn chwael:

Gall hyn arwyddio o ddiatferthion teuluol i berthynas cwpl yn chwael. Mae'r problemau hyn yn ymwneud â pherthynas yn gallu bod yn sbardun sydyn i rywun fod mewn perygl o fod yn ddigartref ac mae'n gallu cyd-fynd â thras.

### Iechyd:

Mae problemau iechyd meddwl a chorfforol yn gallu gwneud rhywun yn agored i ddigartrefedd.

### Arian:

Mae bod â thrafferthion ariannol yn gallu bod yn un o'r arwyddion cyntaf bod rhywun mewn traflet.

### Profedigaeth yn y teulu:

Gall hwn felyd wneud person yn agored i ddigartrefedd.

### Aros yn hwy:

Yn y gwast, mewn caffi, yn yr ysgol, yn y coleg, yn y brifysgol... efallai nad oes gan rywun sy'n ymddangos nad yw byth yn mynd adref rhywle i fynd i ddo.

### Cam-fanteisio:

Mae pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd cudd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio gan arall. Efallai y byddan nhw'n cael eu rhoi dan bwysau i gael rhyw yn gyfnewid am le i aros.

**08000 495 495**

**#DigartrefeddCudd**



## Sut i gael help:

Ffonio ein llinell cyngor ar dai am ddim ar **08000 495 495**

Mynd i [sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddCudd](https://sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddCudd) i:

- Anfon e-bost at un o'n cyngorwyr.
- Siarad â'n cynorthwydd digidol, Wyni.
- Anfon neges uniongyrchol i'n cyngorwyr drwy ein gwefan, 10am - 2pm, dydd Llun i ddydd Gwener.
- Lawrlwythwch ein App Cymorth. Tali rhad ac am ddim i'w ddefnyddio pan nad oes gennych chi Wi-Fi.



**Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.**

**Llamau Shelter Cymru**

## Spot the signs:

### Staying at a friend's:

Many young people stay with friends or acquaintances because they don't have anywhere else to live, which can often be described as 'sofa surfing'. Even though they are not sleeping on the streets, this is still classed as being homeless.

### Relationship breakdowns:

This can often be a very sudden trigger for someone and make them at risk of becoming homeless and can often correspond with violence.

### Health:

Issues with mental and physical health can make someone vulnerable to homelessness.

### Finances:

Struggling with finances can be one of the first signs that someone is in trouble.

### Family bereavement:

The loss of a loved one can make a person vulnerable to homelessness.

### Staying late:

At work, at a cafe, at college, even sleeping on public transport without ever arriving at their stop... someone who seems to never go home may have nowhere to go.

### Exploitation:

Young people experiencing hidden homelessness are at risk of being exploited by others. They might be pressurised into a sex for rent arrangement in exchange for a place to stay.

**08000 495 495**

**#HiddenHomelessness**



## How to get help:

You can get in touch with us by calling our free housing advice helpline **08000 495 495**.

Visit [sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness](https://sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness) to:

- Email one of our advisers.
- Speak to our digital assistant Wyni.
- Instantly message our advisers via our website, 10am - 2pm, Monday to Friday.
- Download our free Housing Help App that you can use when you don't have Wi-Fi.



**It's never too late or too early to get help.**

**Llamau Shelter Cymru**

# Taflen A5 gyffredinol



**NID YW POBL DDIGARTREF WASTAD YN BYW AR Y STRYD.**

#DigartrefeddCudd

Llamau Shelter Cymru

## Does dim rhaid i chi fod yn cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref.

Gallai gynnwys cysgu ar soffa frindd neu aelod o'r toulu, aros rhywle dros dro fel hostel neu wely a brocwest, byw mewn amodau gwael iawn neu rywle nad yw'n addas ar gyfer unigolyn neu deulu.

Nid yw llawer o'r bobl ifanc hyn yn sylweddoli eu bod nhw'n ddigartref a'u bod nhw mewn gwirionedd yn wynebu'r hyn a gafir ei alw'n "ddigartrefedd cudd". Y llynedd, daeth mwy na 3,000 o bobl ifanc Cymru yn ddigartref a oedd yn gorffwrdd defnyddio gwasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl ddigartref, tra bod llawer o rai eraill yn cysgu ar soffas a foriau frinddau. Mae hyn yn cael ei alw'n ddigartrefedd cudd, ac mae'n arosi sylw amro.

Rydym ni eisieu i bobl wybod beth yw anwyddion ddigartrefedd cudd, bod hynny'n golygu eich bod chi'n eu hadnabod nhw ynoch chi eich hun, neu'n sylwi arnynt ym mhobi eraill fel eich bod chi'n gallu eu harngos nhw i gael cymorth.

Mae Shelter Cymru yma i'ch helpu chi. Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.

☎ 08000 495495

🌐 [sheltercymru.org.uk/cy/ddigartrefeddCudd](http://sheltercymru.org.uk/cy/ddigartrefeddCudd)

Lawrlwythwch ein App Cymorth Tai rhad ac am ddim i'w ddefnyddio pan nad oes gennych chi Wi-Fi

### Gwybod beth yw'r arwyddion:

#### Aros gyda frindd

Mae llawer o bobl ifanc yn aros gyda frinddau, aelodau'r teulu neu bobl y maent yn eu hadnabod gan meddwl oes ganddyn nhw unrhyw le arall i fynd, sy'n ariant yn cael ei ddioglo fel 'saffio soffas'.

#### Perthynas yn chwaku

Gall hyn amrywio o ddatfethion taulaci i berthynas cwpl yn chwaku. Mae'r problemau hyn yn ymwneud â pherthynas yn gallu bod yn atebdan sydyn i'w gwneud mewn perygl o fod yn ddigartref ac mae'n gallu cyd-fynd â thraed.

#### Ischyd!

Mae problemau ischyd meddwl a chorffordd yn gallu gwneud rhywun ynsgorod i ddigartrefedd.

#### Arian

Mae bod â thraffethion arianod yn gallu bod yn un o'r anwyddion cyntaf bod rhywun mewn traffethion.

#### Profedigaeth yn y teulu

Gall hwn helpu gwneud person yn sgorod i ddigartrefedd.

#### Aros yn hwyr

Yn y gwaith, mewn caffi, yn y ysgol, yn y codelg, yn y briffordd, aelli meddwl oes genn rhywun sy'n ymddangos nad yw byth yn mynd adref rywle i fynd iddo.

#### Cam-fanteisio

Mae pobl ifanc sy'n wynebu ddigartrefedd cudd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio gan eraill. Eiddau y bydian nhw'n cael eu rhoi dan bwysau i gael rhywun yn gyfrwng am le i aros.




**HOMELESSNESS DOESN'T ALWAYS LIVE ON THE STREETS.**

#HiddenHomelessness

Llamau Shelter Cymru

## You don't have to be sleeping on the streets or to be homeless.

It might be sleeping on the sofa of a friend or family member, staying somewhere temporarily like a hostel or bed & breakfast, living in very poor conditions or somewhere that's not suitable for an individual or a family.

Many young people in these situations don't realise that they are homeless and are actually experiencing what's known as 'hidden homelessness' which is hard to spot. Last year more than 3,000 young people in Wales became homeless and had to use council homelessness services, while an unknown number were sleeping on sofas and friends' floors.

We want people to know the signs of hidden homelessness, whether that's recognising them in yourself, or spotting them in others so that you can encourage them to reach out for support.

### Spot the signs:

#### Staying at a friend's

Many young people stay with friends, family members or acquaintances because they don't have anywhere else to live, which can often be described as 'sofa surfing'.

#### Relationship breakdown

This can often be a very sudden trigger for someone and make them at risk of becoming homeless. This can often correspond with violence.

#### Health

Issues with mental and physical health can make someone vulnerable to homelessness.

#### Finances

Struggling with finances can be one of the first signs that someone is in trouble.

#### Family bereavement

Can make a person vulnerable to homelessness.

#### Staying late

At work, at a café, at school, at college at university... someone who seems to never go home may have nowhere to go.

#### Exploitation

Young people experiencing hidden homelessness are at risk of being exploited by others. They might be pressured into a sex for rent arrangement in exchange for a place to stay.

Call our free housing advice helpline now. It's never too late or too early to get help.

☎ 08000 495495




🌐 [sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness](http://sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness)


Download our free Housing Help App that you can use when you don't have Wi-Fi





# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol



<p>COVID-19 has pushed many people to the brink of homelessness. If you are worried that you will lose your home because of the pandemic, find out how you can get free help and advice today.</p>	<p>Mae COVID-19 wedi gwthio llawer o bobl yn agos at ddigartrefedd. Os ydych chi'n poeni y byddwch yn colli eich cartref oherwydd y pandemig, dysgwch sut y gallwch chi gael cymorth a chyngor am ddim heddiw.</p>	
<p>You don't have to be sleeping on the streets to be homeless. People who are sleeping on friend's sofas or living in overcrowded accommodation are also homeless. If you are worried about someone close to you, find out how you can help them today.</p>	<p>Does dim rhaid i chi fod yn cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref. Mae pobl sy'n cysgu ar sofffa ffrind neu sy'n byw mewn llety gorllawn hefyd yn ddigartref. Os ydych chi'n poeni am rywun sy'n agos atoch chi, dysgwch sut y gallwch chi ei helpu heddiw.</p>	
<p>People who identify as LGBTQ+ are often at risk of homelessness when they first tell their family about their sexuality or gender identity. If you're going through a difficult time at the moment and don't have a safe place to call home – know that you're not alone. Find out how you can get free help and advice today.</p>	<p>Yn aml mae pobl sy'n uniaethu yn LGBTQ+ yn wynebu digartrefedd pan fyddant yn rhoi gwybod i'w teulu am eu rhywioldeb neu eu hunaniaeth o ran rhywedd am y tro cyntaf. Os ydych chi'n mynd drwy gyfnod anodd ar hyn o bryd ac nad oes gennych chi le diogel i'w alw'n gartref - byddwch yn ymwybodol nad ydych chi ar eich pen eich hun. Dysgwch sut y gallwch chi gael cymorth a chyngor am ddim heddiw.</p>	

<p>Has a relationship broken down with someone you live with? Worried you won't be able to carry on living with them? If this is happening to you, then you could be at risk of homelessness. Remember that you're not alone. Find out how you can get free help and advice today.</p>	<p>A yw eich perthynas â rhywun rydych chi'n byw gyda nhw wedi chwalu? Ydych chi'n poeni na fyddwch chi'n gallu parhau i fyw gyda nhw? Os yw hyn yn digwydd i chi, yna gallech chi fod mewn perygl o fod yn ddigartref. Cofiwch nad ydych chi ar eich pen eich hun. Dysgwch sut y gallwch chi gael cymorth a chynghor am ddim heddiw.</p>	
--	---	--

## Cyfeiriwch eich dilynwyr at y dolenni isod:

- Saesneg: <https://sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness/>
- Cymraeg: <https://sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd/>

## Hysbysebion a ffilmiau





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Diolchwn i chi am eich cefnogaeth i godi  
ymwybyddiaeth o ddigartrefedd cudd a sicrhau  
bod y rhai sydd angen help yn ei gael.**

Mae croeso i chi rannu'r pecyn cymorth  
hwn â rhanddeiliaid perthnasol.

**Nid yw hi byth yn rhy hwyr  
nac yn rhy gynnar i gael help.**

**#DigartrefeddCudd**

**Llamau**

**Shelter**  
Cymru